# Glas

Bwletin misol
Llén natur
Rhif 174
Awst 2022

**gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**



Llun Gareth Wynne-Williams

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

CYMUNED Llén natur

RHIF ELUSEN Cymdeithas Edward Llwyd 1126027

## Adar y Wladfa : y Sïedn Gyddfwyn



**Hummingbird, *Leucochloris albicollis*, (Colibry), yn Mor Glas** Luis Carrizo

Rhywogaeth o deulu'r sïednod yn y teulu *Trochilidae* yw'r **sïedn gyddfwyn** [wikipedia.org]*(*Leucochloris albicollis*). Dyma'r unig aelod o'r genws *Leucochloris*. Fe'i ceir yng ngogledd-ddwyrain yr Ariannin, de-ddwyrain Brasil, Paragwai, ac Wrwgwai. Mae i'w ganfod mewn coedwigoedd, coetiroedd, parciau a gerddi. Mae'n gyffredin yno ar y cyfan. Mae'n perthyn i deulu'r Sïednod (Lladin: *Trochilidae*) (*hummingbirds*) sydd yn urdd y *Apodiformes*, sydd hefyd yn cynnwys y coblynnod neu'r gwenoliaid duon.

***Croeso i chi gyfrannu at y dudalen trwy gyfieithu rhannau o Wikipedia mewn iaith rydych yn gyfarwydd â hi, neu ychwanegu gwybodaeth newydd. Cewch wneud yn uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg, neu ysgrifennu eich llith mewn ebost i llennatur@yahoo.co.uk.**

## Dyddiadur Twm Elias: y gwanaco



Criw o gwanacos ar ochr y ffordd ym Mhenryn Valdez, Ebrill 30, 2022. Bu iddynt neidio dros y ffens yn y cefndir heb unrhyw drafferth.

Mae’r gwanaco (*Lama guanicoe*) yn un o’r ddau aelod o deulu’r camelod (*Camelidae*) sy’n endemig i dde America Yr aelod arall yw y ficwna (*Vicugna vicugna*), sy’n llai o faint, ac sydd i’w gael yn uchel ym mynyddoedd Periw yn bennaf.

Ymestynna cynefin y gwanaco o fynyddoedd yr Andes, o rannau o Periw a Bolifia yn y gogledd hyd Tierra del Fuego yn y de, ac ar draws peithdir Patagonia hyd at Fôr yr Iwerydd yn y dwyrain.

Math arbennig o gwanaco yw y lama (*Lama glama*), sydd i’w gael fel anifail dof yn unig. Caiff ei fagu ar gyfer cario paciau ac ar gyfer ei wlân. Yn yr un modd, disgynydd o’r ficwna gwyllt yw yr alpaca (*Vicugna pacos*), sydd, fel y lama, i’w gael fel anifail dof yn unig, ac a fegir ar gyfer ei wlân gwerthfawr. Mae’r gwanaco yn brif brae i’r piwma, sydd yn fwy cyffredin yn yr Andes, ond sydd i’w cael yn ogystal ar draws y paith – gwelwyd piwma fenyw a’i chyw ar *estancia* ychydig i’r gorllewin o Borth Madryn ym Mai 2022. Ar un adeg byddai brodorion y paith yn dibynnu ar y gwanaco am gig, crwyn a gwlân i wehyddu eu *poncho*s cynnes at y gaeaf.

Byddai cryn fasnachu rhwng y Tehuelche a’r gwladfawyr Cymreig am y nwyddau hyn, a chawsant eu ffeirio am fara’r Cymru.

Pan fethodd cnydau’r Cymry yn nwy flynedd gyntaf y Wladfa, a hwythau ar fin rhoi’r gorau iddi a symyd i diroedd gwell yn y gogledd, bu i’r Tehuelche eu cynorthwyo drwy hela gwanacos ar eu rhan. Wrth lwc roedd pethau wedi dod i drefn erbyn y drydedd flwyddyn ac ni bu son am ymadael wedyn.

Erbyn heddiw mae gwanacos y paith wedi prinhau yn sylweddol oherwydd gor-hela, ond yn y Parciau Cenedlaethol neu ardaloedd gwarchod bywyd gwyllt, ac ar rai o’r *estancias* sy’n elwa o eco-dwristiaeth maent yn ffynnu ac yn llawer llai swil o’u cymharu â’r rhai welir ar y peithdiroedd agored. Y farn yw bod y gwanacos yn greaduriaid cymharol gall ac wedi dod yn fwy goddefgar o bobl yn yr ardaloedd sydd yn saff iddynt.

## Un siawns mewn miliwn…!



### …. a dwy i ddarllenwyr Glas!

Wedi ei rannu o Avantgardens yn Hardy County, West Virginia.

June 25 at 9:36 PM· *‘One in a million moment as lightning strikes a tree captured in unprecedented details.*

**Llun Debbie Parker**

*“This happens more often than people realize.”*

**Tonya Graves**

Mae’n werth cadw llygad allan mewn lleoedd uchel agored am goed marw neu’n ymadfywio ar ôl cael eu hollti’n ddwy i lawr y boncyff i’r ddaear gan fellten. Rwy’n cofio coeden afallen wyllt o’r fath ar Y Waun, Coedydd Aber(gwyngregin). Dim llun rhag cywilydd i mi! Fel mae Tonya Graves yn ei awgrymu, mae hyn yn eitha cyffredin. Be sy’n anghyffredin ydi cael llun ohono yn digwydd! **Duncan Brown**

**Edrych ymlaen at y lluniau…!!! Dyma sylw un sydd â phrofiad:**

*If you visited that tree, you’d see a line from top to bottom carved as if by a chisel where the bolt went.*

*I worked in a place in a pine forest in a high lightning prone area and numerous trees had been struck. It was amazing to see the ‘chisel’ marks on the trees after they’d been struck.* **Burke Stevens**



**Oes yna neges i ni yn fan hyn? – peidio bod mor barod efallai i feio pobl unigol (smocwyr, barbi-wyr) am gychwyn tannau gwyllt ar y mynydd.**

# Pysgod yn nyddiaduron William Bulkeley

**Ymchwil gan Dewi Lewis :**
**Dyddiaduron 1734-43 ac 1747-60**

Mae pysgod yn cael lle amlwg yn nyddiaduron William Bulkely, Brynddu, Llanfechell, Ynys Môn. Wrth ddarllen y dyddiaduron deuthum ar draws 121 o gyfeiriadau at "fish" a 98 o gyfeiriadau at bysgod penodol (Rhan 2) boed hynny yn cyfeirio at rywogaeth neu gregyn bysg. Mae nifer fawr o'r cofnodion yn cyfeirio at y pris a dalodd am y pysgod . Nid yw'n glir pob tro sawl pysgodyn yr oedd yn prynu ond ar adegau eraill ceir rhif penodol. Ar ddechrau'r dyddiaduron mae William Bulkeley yn nodi ei bwrpas wrth gadw dyddiadur;

***"all transactions yt happened within the sd. year. relateing to my Countrey buisness, farming, tradeing, comerce, parish buissness, servant's wages. Prices of Corn & Cattle,.."***

Yr elfen fasnachol yn hytrach na'r elfen o nodi y math o bysgod oedd y flaenoriaeth. Mae'n amlwg fod diddordeb gand WB mewn gwerthu a phrynu pysgod oherwydd fe gyfeirodd at bysgod mewn marchnadoedd lleol sawl tro;

***"14/3/1735 - a pretty full markett to day at LLanfechell, bought 2 penny worth of fish."***

***"10/6/1737 - a pretty good Markett to day at LLanfechell, both for Fish and Flesh"***

Ac hyd yn oed mewn marchnad yn Nulyn mae ei fryd ar y pysgod;

***"2/4/1735 - ...Was at Dublin Market (Ormond Market) over the water. A very great plenty both of Fish of all sorts"***

Dim ond un cyfeiriad a geir ganddo ynghylch mynd i bysgota. Pysgota afon oedd yr achlysur ond ni chafodd fawr o lwc.

***"04/04/1734 - I was this day in ye River at ye Angling sport, caught but a few."***

Bu sawl un yn cyflenwi iddo bysgod o bob math dros gyfnod y dyddiaduron. Y cynharaf a enwir yw Richard Jones;

***"18/6/1735 - pd Richard Jones of Gwŷ(?)elyn 14d. for fish".***

***"24/7/1739 pd. George Hughes the Tinker 6d. for fish".***

Un arall oedd Abraham Jones: ***"22/10/1741 pd Abraham Jones 6d. for fish".***

Erbyn 1742 roedd mwy nag un person yn cyflenwi pysgod iddo fel y dengys y cofnod yma.

***"26/1/1742 paid 1d.2/1 for fish to Abraham Jones. & 1d2/1 for fish to Rowland ab Wm. Rowland; alias, y Maharen Bâch"***

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn 4/9/1747, daw gwraig y "Maharen Bâch" i setlo'r ddyled.

***"pd. Maharen Bâch`s wife 2d. for Fish"*** ac yna Richard Williams ***"3/12/1747 - gave 6d. to Richard Wms. of Wylva that bought me some fish"***

Roedd ei frawd hefyd yn dwad a physgod iddo.
***"4/7/1748 - gave My Brother Lewis man who brought me fish 6d."***

Mae'n ymddangos bod y "Maharen Bâch" wedi bod yn gyflenwr selog iddo dros nifer o flynyddoedd.

***"23/5/1751 - Paid Rowland ab William Rowland ab Robert alias Maharen Bâch 6d. for fish."***
***"23/1/1759 - Pd. Rolant ap wiliam Rolant 6d. for fish".***

Ceir awgrym ym 1755 bod angen prynu pysgod yn amlach gan nad oedd ansawdd y cig cystal ac awgrym efallai bod y pris wedi cynyddu fymryn.

***"11/4/1755 - There was not a bit of Butcher`s meat worth the Eating to day at LLanfechell Market, as indeed there was not since this dismal year came in, there not being in all this Neighborhood a Lamb fit to be killed by Easter last : Pd. To day 3d for fish."***

***"28/4/1755 - pd. also 7d. for fish"***

***"28/6/1755 - Paid 9d. for fish:"***


***"29/6/1755 - pd. 6d. for fish."***

***"12/8/1755 - pd. 15d. for fish."***

***"7/12/1755 Pd. 1s. 4d. for a stored of Turnips,& 6d. for fish".***

***"12/12/1755 - Pd. 1s. for a quarter of Mutton to Marged huw Morus, & 4d. for fish."***

Yn rhai o'r cofnodion mae William Bulkeley yn rhoi inni syniad o bris pysgod o'i gymharu â phris anghenion eraill. Yn sicr roedd William Bulkeley yn gwario llai ar bysgod nag oedd am gwrw, gwin neu wirodydd yn ystod cyfnod y dyddiaduron. Ar gyfartaledd 1d i 2d roedd William Bulkeley yn ei dalu am bysgod. Awgrym efallai mai nifer bychan roedd yn prynu ar y tro.




**Cyfeiriadau at brynu "fish" fesul mis (porffor) a'r gwariant mewn ceiniogau (melyn)**

***"23/1/1759 Pd Rolant ap wiliam Rolant 6d. for fish. & Pd. Wm. Tho. Owen yeTaylor 3s. 6d.for a pound weight of Tea"***

***"18/9/1759 - Pd. 4d. for fish: & Pd. Thomas Jones 3s. 6d. for a pound of Tea."***

***"21/6/1750 - pd. 2d. for fish, & 1d.2/1 for Tobbacco"***

***"7/12/1755 - Pd. 1s. 4d. for a stored of Turnips,& 6d. for fish."***

Yn ystod misoedd yr haf roedd y gwariant uchaf ar bysgod. Hynny efallai yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyflenwad lleol yn well adeg hynny o'r flwyddyn.

**[Rhan 2 mis nesa: pysgod penodol a physgod cregyn]**

## Cogau mis Gorffennaf



Y Gog - Brenig 8 Gorffennaf 2022 **Dys Griffiths**





Gai ofyn cwestiwn - ai cyw ydi hwn plis? **Ann James**

Debycach o fod yn 'gyw' a ddeorwyd yn 2022 nag un hŷn gan fod yr oedolion wedi ein gadael erbyn rwan. **Golygydd**

Cytuno. O bosibl yn gyw eleni. Yr oedolion ar y cyfan wedi dechrau ymfudo erbyn hyn. Un nodwedd amlwg i adnabod cyw gog yw smotyn gwyn ar gefn y pen. Tydio ddim mor amlwg yn y lluniau, arwydd efallai bod y cyw yma yn un cynnar yn y tymor. Y llun gyda'r adenydd ar led efallai yw'r gorau i geisio gweld y smotyn. Mae'r marciau gwyn amlwg ar yr adenydd (y llun gyda'r adenydd ar led) hefyd yn amgrymu cyw/un ifanc. Tydy plu lliw brown ynddo'i hun ddim yn arwydd mai cyw ydy'r aderyn gan fod cymaint o amrywiaeth ym mhatrwm a lliw adar unigol. **Dewi Lewis**

Mae gan y gwalch glas ifanc smotyn gwyn ar gefn y pen hefyd yndoes? Cyd-ddigwyddiad? **Golygydd**

Yn llygad eich lle. Cog weithiau yn cael ei chamgymryd am gudyll bach, hebog yr ehedydd, hebog tramor a'r gwalch glas. Bu tipyn o ddamcaniaethu bod y tebygrwydd i'r adar ysglyfaethus cefn-las yn rhan o batrwm natur a'r drefn o actio neu ddynwared (*mimic*). Yr adar mân sydd yn cael eu twyllo i fod yn westeiwyr ac yn datgelu safleoedd nythu i'r gog trwy ddwad allan i geisio erlid yr 'ysglyfaethwr' honedig. Hen gred hefyd bod y gog yn troi yn walch glas dros y gaeaf. **Dewi Lewis**

**Arbenigedd y gog: sglaffio sianis blewog mawr sy'n rhy flewog i bopeth arall. Wylun y gogledd sydd ym mhig y gog yn y llun**

## Heffrod yn stodi



11 Gorffennaf 2022: Llouau yn carlamu o gwmpas cae yn Waunfawr a'u cynffonnau yn yr awyr (fel oedd mor gyfarwydd ers stalwm). Ydi hwn yn arwydd bod y pry gweryd (robin gyrrwr) yn ei ôl ar ôl absenoldeb hir, ynteu ydi'r ymddygiad yma hefyd oherwydd cael eu poenydio gan bryfed eraill. **Gillian Brown**

■ Trwy ryfedd gyd-ddigwyddiad dywedodd Wil Williams wrthyf nad ydi'o wedi gweld gwartheg yn 'stodi' (dyna ei air... pystodi yn GPC) ers blynyddoedd ac roedd yn rhyfeddu bod o wedi gweld yr un peth, a thynnu llun tebyg, tua'r un pryd ag y gwnaeth Gill. Dyma'r llun a dynnodd Wil (Bethel, Môn 9 Gorffennaf 2022):



■ Barn arbenigol: Mae'n annhebygol bod robin gyrrwr (*Hypoderma sp.*) wedi dod yn ôl. Mae system monitro ar y gweill o hyd. Mae nifer o bryfed eraill sy'n codi ofn ar wartheg ac yn eu hachosi i garlamu. Wrth gwrs, er inni gredu bod robin gyrrwr wedi'i ddileu, ddylai unrhyw berchennog sy'n gweld lympiau ar gefnau ei wartheg roi gwybod i'r APHA. **Jackie Wilmington**

**Ydych chi'n gyfarwydd ag ystyr y gair '[py]stodi': 'Carlamu'n wyllt (am wartheg), rhuthro, brysio; sengi dan draed, damsang; gwneud stomp o (rywbeth), bwnglera'.**


Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni: llennatur@yahoo.co.uk

# BIOBLITS PLAS GLYN Y WEDDW





3 Gorffennaf 2022
Roedd y lleoliad a'r tywydd yn arbennig o dda



Duncan Brown yn sgwrsio gyda Bethan Vaughan-Davies a Hywel Madog





Diwrnod prysur iawn, o'r cychwyn - byrlymus hyd yn oed





Ychydig o ser y diwrnod, yn enwedig gwalchwyfyn yr helyglys





Amser plethu brechiau: Iolo Williams a Hywel




Amser cofnodi: Bruce Hurst yn hynod o brysur

# Atgofion fferm Plas Isaf ❷

**Atgofion Dr Gareth Howells o'i ymweliadau gwyliau fel bachgen yn y 1950au â fferm Plas Isaf, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Cyn ei ymddeoliad roedd Gareth yn Ddirprwy Swyddog Rhanbarthol y Cyngor Gwarchod Natur. Mae'n destament byw gan fachgen sylwgar, deallus a mymryn yn ddiniwed wedi ei ysgrifennu mewn Saesneg coeth a gafaelgar.**




**The plan shows the wide range of farm buildings needed for a mixed farming operation.**

*The stables had stalls for three cart horse although usually occupied by one or two. Above, there was storage for grain for their food.. When I first arrived I was given two buckets of water to be put in the manger. I was puzzled by this as the wooden mangers did not seem watertight but neverheless poured a bucket in which promptly ran out. This caused much hilarity when I reported this and was told the buckets should have been put* <u>*in*</u> *the manger.*



**Fig. 2 a Horse chestnut and main road entrance and Aunty Mary with small waterfall in stream to her right and stables to her left.**

*Close by was the cart shed which contained a 4 wheel flat bed wagon, a two wheeled tipping cart and a stock trailer. When the first tractor, a Fordson Major, arrived in the late '50s this was also kept here. I was once given the job on my own, of taking the tractor with stock trailer containing a calf to Ruthin stock market, which was in the centre of the town at that time. I was in my mid teens and did not have a driving licence which was not necessary for tractors then. The roads had little traffic so driving in to Ruthin was no problem but when I got to the market I needed to back the trailer up to a pen which I found I could not manage as I kept jackknifing the trailer so in the end I unhitched the trailer which was not very heavy and pushed it the short distance to the pen entrance.*

*In front of the stable and cart shed was a wide part of the farm yard leading from the road entrance through the farm buildings. A stream ran parallel to the road and across the yard but half was culverted to allow access. It passed close to the foot of the large horse chestnut, which it was said John Wesley had preached under, and had an artificial 2ft drop here. The one or two milk churns from the day's milking, could be put here to cool in the summer before being put on the roadside stand, level with the milk lorry cargo platform so that they could be picked up daily to be taken to the bulk creamery.*

*The dairy herd was between 8 and 15 cows, mainly shorthorns, but later some Ayrshires were added. A Shorthorn bull was also kept.*



**Fig. 5 The shorthorn bull held by William Owen**


*The cows were milked by hand twice a day by Tecwyn and William Owen. The first milking was around 6.30 am and the second around 4 pm. The cows were milked into buckets and these were then tipped through a filter into a churn. The churns were then put into a small building near the house prior to being taken to the roadside for collection. In the late 50's a Simplex milking machine was installed here with a petrol engine and vacuum pump linked by pipes to the shippon where the pipe ran the length at about 5-6' high above the entrance to each cow stall with a tap at each stall to which the milking cluster of four suction cups could be attached. The milk was then pumped back to the machine location and fed into the churns. Next to this room and next to the house was the small dairy wth a hand turned milk churn which Aunty Mary operated regularly to provide butter. I used to help by turning the handle and had to stop occasionally so that the small glass porthole in the lid could be checked for signs of butter fragments appearing, when it was deemed ready, the churn was tipped to allow the contents to drain through a a cloth which separated the butter from the butter milk (*llaeth enwyn*) which ran into a small churn as it was used for giving to pigs or calves and some was kept for drinking [*glasdwr*], often by the harvesters in hot weather. The butter was then salted and patted into slabs by hand with a pair of wooden ridged boards.*



**Fig.4 The milking herd on their way back from the shipppon to graze, passing the house, dairy and milking machine shed. William Owen behind.**

**Dyma ddiwedd RHAN 2 atgofion Dr Gareth Howells. Byddan yn cyhoeddi'r rhanau eraill yn rhifynau Glas sy'n dod. Mae'r atgofion i gyd ar y ddolen hon.** (Google Chrome)


# Y Cornbig a'r Wylan



Gwylan efo môr-nodwydd
Aberystwyth 14 Gorffennaf 2022
Alun Hughes Williams



Aran a'r Wyddfa o'r Cob
ym Mhorthmadog
(Aran yw enw'r gwalch!)
Elfyn Lewis




Sliwen hir fyddwn ni'n
ei galw yn Llanbedrog (GH)
Map OS

Sliwen hir fyddwn ni'n ei galw yn Llanbedrog. Llun da. Llafnau Llanbedrog trwy'r cenedlaethau wedi mynd i Garreg y Defaid fin nos yn yr haf i daflu cansennau i'r môr er mwyn gweld y sliwid hirion yn neidio drostynt.
- Gweler Map❸. **Greta Hughes**
Mae **Wil Russell Owen** yn cadarnhau: 'Sliwan hir, Llanbedrog'

Yn ôl Geiriadur yr Academi, mae tri enw Cymraeg ar *'garfish'*: môr-nodwydd (môr-nodwyddau), carrai fôr (careiau môr), cornbig (cornbigau) - Llên Natur: Gwefan Natur i Bobl Cymru **Alun Hughes Williams**
Dwi yn gweld rwan pam bod rhai pobol yn ei alw yn *needle fish*. Oedd rhai eraill yn ei alw yn *"Green bones"* am bod ei esgyrn yn troi yn wyrdd pan yn cael ei goginio. **Iolo Jones**

**Tybed lle mae termau hyn yn arferedig. 'Sliwen hir' yn lleol iawn?**

Bydd Aran, Gwalch Glaslyn, yn dod ag ambell un nôl i'r nyth - Gweler Llun ❷. **Helen Morris**
Aran a'r Wyddfa o'r Cob ym Mhorthmadog pnawn ma. (Aran yw enw'r gwalch!) **Elfyn Lewis**

## O'r Archifau

**1.** Cored y Rhos. Ysgrifennodd gohebydd i'r Manchester Guardian (Gorffennaf 2, 1896) :
*Those who visit the coast of North Wales should not omit to go at low water to the Fish Weir at Rhos, Colwyn Bay* [tud. 4]. *Though a Pier has now been made there, it has fortunately not in any way interfered with the Weir, and to those who are interested in natural history this is one of the greatest treats they could imagine. There is such a glorious uncertainty about the catch. One day perhaps a solitary dogfish will reward, or rather disappoint, the anxious owner, whilst on another a number and variety may be caught, as was the case when I saw it drawn a few days ago. There were a dozen fine trout, most of them about 2lb in weight, one small codfish, a plaice 2lb in weight, a small sole, a small gurnet of no value, but an exceedingly interesting and curious little fellow, sandeels in great numbers, and about a dozen specimens of the garfish. It is seldom that in two consecutive tides the same sort of fish will be in the net, unless a shoal of herrings are about, when 1,000 to 1,500 will be in the weir at one time, and it is busy work to get them out before the tide rises again*."

**2.** Ewch i dudalen 3 Bwletin 161 i weld mwy am y cornbig.

# Aberglaslyn cyn y coed 'conuffernols'



❶ Bwlch Aberglaslyn cyn i'r coed conuffernol dyfu yn drwch. W.H.Vernon (1820-1904) ddaru beintio hwn - felly cyn 1904. **Iwan Williams**
❷ Adnebir Aberglaslyn yn lleol fel Y Gymwynas
❸ Cerdyn post 1903
❹ Yn ôl **Ifor Williams** - A barnu wrth steil y car mae'n debyg o'r 1920$^{au}$ mae'r car yn dyddio.
❺ Cerdyn post 1940. Hwn yn edrych yn fwy coediog na'r un cynt. Sylwch ar y bachgen, efallai yn ei wisg ysgol, mewn trwsus byrion, yn gyrru'r defaid.
❻ Aberglaslyn heddiw **Dafydd Richard Hughes**

Clwb y Llygaid Bach

Llên natur

# ADAR YR ARDD 1

## Adnodd i blant, athrawon a rhieni

**Titw tomos las**




Mae ganddo gap glas ac arno gylch gwyn. Ei gynffon ac adenydd yn las a llinell wen ar hyd ei adain. Yn hoffi bwyta lindys, pryfed gwyrdd, ffrwythau, grawn a hadau.

**Titw mawr**




Mae yn fwy o faint na'r titw tomos ac mae ei ên ddu yn ymestyn fel streipen lydan ar hyd canol ei fol melyn. Cap brown tywyll a bochau melynaidd sydd gan y cyw. Yn hoffi bwyta lindys, pryfed, cynrhon, ffrwythau, pŷs a hadau. Ar y bwrdd adar mae'n hoffi pigo siwet a bara.

**Titw cynffon hir**




Aderyn bychan sydd â chorff crwn a chynffon hir fain yw hwn. Mae ei ben yn grwn a'i big yn fach iawn. Fe welwch resen ddu yn ymestyn dros ei lygaid at ei gefn du. Yn hoffi bwyta pryfed, hadau a blagur.

**Nico**




Wyneb coch sydd ganddo pan mae'n llawn dwf, gydag ochrau ei ben yn wyn a llinell ddu ar ei war. Corff brown golau, bol gwyn, adenydd du. Yn hoff iawn o fwyta hadau 'nyjer', hadau ysgall, dant y llew a hadau coed. Mae cerdd enwog gan Cynan amdano.

**Mwyalchen**




Mae'r ceiliog yn ddu heblaw am ei big oren felyn a'r cylch melyn o gwmpas y llygad. Mae'r iâr yn frown tywyll a'i phig yn dywyll neu'n felyn. Aderyn Du yw enw arall. Yn hoffi bwyta ffrwythau a hadau, mwydod a phryfed. Mae ei gân yn swynol iawn.

**Aderyn y to**




Stribynnau browngoch sydd ar gefn ei fron a'i fol yn llwyd. Mae'r iâr yn oleuach, yn frown melynach a rhimyn hufen llydan uwchben ei llygad. Yn hoffi bwyta hadau o bob math, pryfed a grawn.

| | Pryd? | Lle? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 1 | | | 10 |
| 2 | | | 20 |
| 3 | | | 15 |

| | Pryd? | Lle? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 4 | | | 15 |
| 5 | | | 20 |
| 6 | | | 10 |

Mae CYHOEDDIADAU (ar y wefan) yn gronfa o holl ôl-rifynnau'r Bwletin (Glas erbyn hyn) a phosteri sydd yma. Gellir eu chwilio gydag un chwilair. Cyfraniad Gareth Pritchard yw'r posteri am adar. **CLICIWCH!**

Cyhoeddiadau Llên natur

Bwletinau Posteri